Plant Mewn Angen

Ar y 23ain o Dachwedd, 1990 cyrhaeddodd pawb i Ysgol Trefeurig fel arfer, ond yn edrych yn wahanol iawn. Cafodd yr Ysgol ddiwrnod lle roedd pawb yn gwisgo eu dillad tu chwith a tu ôl ymlaen. Roeddem yn talu 10c am bob dilledyn oedd o chwith ac roedd pawb yn edrych yn ddoniol iawn. Roedd ein hysgol wedi cael ei gwahodd i Aberystwyth i ganu ar Radio Cymru. Roeddem ni wedi dysgu cân o'r enw 'Ef a'm Gwnaeth', a buom yn ei chanu tu allan i Siop y Pethe yn Aberystwyth. Bu Zoe Morris a Rhian Mason yn siarad ar y radio hefyd.

Pan ddaethom yn ôl i'r ysgol cawsom ginio ac yna cerddasom o amgylch y pentre yn canu penillion o'r gân 'Ef a'm Gwnaeth' gan gasglu llawer o arian. Roeddem wedi cael diwrnod wrth ein bodd.

Elen Rees